Cyngor Tref Amlwch Town Council
Cofnodion cyfarfod y Cyngor Llawn a gynhaliwyd drwy Zoom nos Fawrth 26/10/2021 am 7yh.
Minutes of the Full Council meeting held via Zoom Tuesday 26/10/2021 at 7pm.

Presennol/Present: Gareth Winston Roberts OBE, Gerry Belanger, Gordon Warren, Meg Roberts, Myrddin Owens, Mike Roberts, Liz Wood, Andy Hughes (hwyr/late), Carli Evans Thau (clerc/clerk), Hywel Hughes (cyfieithu/translation)

Ymddiheuriadau/Apologies: Carys Hughes, Chris Williams, Richard Jones, Cyng/Cllr Aled Morris Jones

1 Croeso ac Ymddiheuriadau / Welcome and Apologies
Bu Liz Wood gadeirio'r cyfarfod a chroesawu pawb yn bresennol.
Liz Wood chaired the meeting and welcomed all present.

2 Datgan Diddordeb / Declaration of Interest
Gareth Roberts – materion staffio/staffing matters (adroddiad cyllid/finance report)

3 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf / Minutes of the Last Meeting
Cymeradwywyd Cofnodion cyfarfod Gorffennaf, cynnig Myrddin Owens, eilio Gareth Roberts.
Minutes of the July meeting were approved, proposed Myrddin Owens, seconded Gareth Roberts..

4 Materion yn Codi / Matters Arising

4.1 Lletygarwch / Hospitality
Nodwyd nad oedd pob aelod wedi ymateb i'r ebyst gan y clerc. Cytuno cysylltu unwaith eto cyn trafod gyda'r swyddog monitro pa gamau fyddai angen eu cymryd nesaf.

It was noted that not all members had responded to the emails from the clerk. Agree to contact again before discussing with the monitoring officer what actions need to be taken next.

4.2 Trethi ail-garetrefi / Second home taxes
Nodwyd pryder nad oedd cynghorydd sirol yn bresennol yn y cyfarfod. Cytuno ysgrifennu at Richard Jones i gadarnhau safbwynt y grwp rheoli cyn y cyfarfod nesaf a cynnwys yr eitem ar agenda'r Cyngor llawn. Nodwyd siom nad oedd polisi dros dro wedi ei fabwysiadu gan nodi bod yr ad-daliadau yn effeithio ar holl drethdalwyr yr ynys. Cytuno gofyn am ymateb drwy ebost gan nad oedd Richard Jones yn galu mynychu cyfarfodydd oherwydd gwaith.

Nodwyd bod pryderon hefyd am y gwahaniaethu mewn rhent ar gyfer tai Cyngor a thai cymdeithadau tai. Cytuno trefnu cyfarfod ar y cyd gyda CSYM (adran tai ac adran gynllunio) a'r asiantaethau tai perthnasol. Cynnig Myrddin Owens, eilio Gareth Roberts.

Concern was expressed that a county councilor was not present at the meeting. Agree to write to Richard Jones to confirm the ruling group's position before the next meeting and to include the item on the agenda of the full Council. Disappointment was noted that an interim policy had not been adopted noting that the rebates affected all the island's taxpayers. Agreed to request a response by email as Richard Jones was unable to attend meetings due to work.

It was noted that there were also concerns about the variation in rent for Council housing and housing association housing. Agree to arrange joint meeting with IACC (housing and planning department) and relevant housing agencies. Proposed Myrddin Owens, seconded Gareth Roberts.

4.3 Marchnad / Market
Cadarnhawyd bod pob aelod wedi derbyn y wybodaeth berthnasol yn dilyn y cyfarfod diwethaf. Nodwyd nad oedd y mesurau a nodwyd yn y ddogfen yn eu lle pob wythnos ac roedd pryderon yn parhau am ddiogelwch. Cynnigwyd cysylltu eto a CSYM yn nodi na ddylai'r cyhoedd gael defnyddio'r maes parcio ar fore Gwener tra bod marchnad. Cynnig Meg Roberts, eilio Gerry Belanger. Gofynnwyd hefyd am asesiad risg broffesiynnol gan nodi y byddai ambell lecyn parcio anabl a system unffordd drwy'r farchnad, gan gynnwys arwyddion gan CSYM yn bosibilrwydd os nad oedd posib gwahardd parcio yn gyfan gwbwl.

It was confirmed that all members had received the relevant information following the last meeting. It was noted that the measures set out in the document were not in place on a weekly basis and safety concerns remained. It was proposed to contact the IACC again stating that the public should not be allowed to use the car park on a Friday morning while there is a market. Proposed Meg Roberts, seconded Gerry Belanger. A professional risk assessment was also requested, noting that some disabled parking bays and a one-way system through the market, including IACC signage, would be a possibility if it was not possible to prohibit parking altogether.

4.4 Fflatiau / Flats
Nodwyd nad cymdeithas tai Clwyd Alyn oedd yn gyfrifol am y fflatiau. Cytuno gwneud ymholiadau a chysylltu a'r sawl sy'n gyfrifol am les eu tenantiaid.

It was noted that Clwyd Alyn housing association was not responsible for the flats. Agreed to make enquiries and liaise with those responsible for the welfare of their tenants.

4.5 Parcio Porth Amlwch a Phorth Llechog / Amlwch Port and Bull Bay Parking
Nid oedd diweddariad hyd yma gan CSYM am wella adnoddau parcio. Liz Wood i gysylltu a'r swyddogion perthnasol cyn y cyfarfod nesaf.

There was no update as yet from IACC with regard to improving parking facilities. Liz Wood to contact the relevant officers before the next meeting.

Bu Andy Hughes ymuno a'r cyfarfod. / *Andy Hughes joined the meeting.*

4.6 Market Tavern
Cadarnhawyd bod Liz Wood wedi cysylltu a'r heddlu i geisio trefnu cyfarfod. Cytuno bod angen cyfarfod ar y cyd gyda adran drwyddedu CSYM a'r perchnogion i drafod pryderon y gymuned a sut orau i symud ymlaen.

It was confirmed that Liz Wood had contacted the police to try and arrange a meeting. Agreed the need for a joint meeting with the IACC licensing department and the owners to discuss community concerns and how best to move forward.

5 Pwyllgorau Allannol / External Meetings

5.1 Fferm Arae Haul Porthwen Solar Farm
Cafwyd adroddiad cryno gan Liz Wood yn dilyn cyfarfod cyntaf y grwp cyswllt cymunedol. Nodwyd bydd y cyfarfod nesaf yn gyfarfod cyhoeddus i'w gynnal yn Neuadd Bentref Cemaes, deallwyd byddai budd cymunedol yn cael ei gynnwys ar yr agenda. Cytuno byddai Liz Wood, Gareth Roberts, Myrddin Owens a Gordon Warren yn mynychu ar ran y Cyngor.

Nododd Gareth Roberts bod Cyngor Llanbadrig a'r Cyngor Tref wedi bod yn cydweithio ac wedi cwrdd a'r cwmni gwreiddiol cyn i'r cais cynllunio gael ei ganiatau. Hoffai ofyn i Richard Jones beth ddigwyddodd tu allan i'r fframwaith trafodaethau ffurfiol gyda'r cynghorau. Nododd nad oedd yr hyn oedd wedi ei adrodd yn y cyfryngau yn gywir.

Liz Wood gave a brief report following the first meeting of the community liaison group. It was noted that the next meeting would be a public meeting to be held at Cemaes Village Hall, it was understood that community benefit would be included on the agenda. Agreed that Liz Wood, Gareth Roberts, Myrddin Owens and Gordon Warren would attend on behalf of the Council.

Gareth Roberts noted that Llanbadrig Council and the Town Council had been working together and had met with the original company before the planning application was granted. He would like to ask Richard Jones what happened outside of the formal discussions framework with the councils. He noted that what had been reported in the media was not correct.

5.2 Rhandeilwyr Wylfa SSG
Bu Gordon Warren ymddiheuro am beidio paratoi adroddiad ysgrifennedig i'w ddosbarthu ond bu iddo roi crynodeb o'r cyfarfod ar lafar gan amlinellu'r prif bwyntiau trafod.

Gordon Warren apologised for not preparing a written report for distribution but he verbally summarized the meeting and outlined the main discussion points.

6 Adroddiad y Pwyllgor Cyllid / Finance Committee Report

Cafwyd grynodeb o gyfarfod diwethaf y pwyllgor gan Myrddin Owens. Cadarnhawyd bod yr aelodau ar ben eu hunain ac nad oedd aelodau'r cyhoedd yn bresennol gyda hwy cyn rhoi crynodeb am faterion staffio ble bu cadarnhau cyflog ac oriau gwaith Alan ac Andrew Ganderton.

Cafwyd wybod bod CSYM wedi cynnig gwerthu darn o dir o amgylch adeilad y sgowtiaid i'r Cyngor Tref. Cytuno yn unfrydol symud ymlaen yn ddibynnol ar gostau cyfreithiol - Myrddin Owens a'r clerc i wneud ymholiadau pellach. Cynnig Gareth Roberts, eilio Andy Hughes.

Cafwyd wybod bod y pwyllgor yn ceisio ail-drefnu cyfarfod gyda'r grwp oedd am ddatblygu cae aml-dywydd ger y ganolfan hamdden, a gobeithir gallu adrodd yn ol i'r cyfarfod nesaf.

Nodwyd bod y clerc wedi derbyn ebost am gylch bywyd oedd wedi diflannu o Draeth Dynion. Cadarnhawyd nad oedd y Cyngor Tref erioed wedi bod yn gyfrifol am y traeth na'r offer diogelwch. Y clerc i gysylltu yn ol a CSYM.

Cafwyd ddiweddariad am y cwyn a wnaed i'r Ombwdsmon gan nodi eu bod wedi gofyn am fwy o wybodaeth gan y clerc.

Protocol Datrys Cwynion – cadarnhawyd bod y ddogfen wedi ei baratoi gan Un Llais Cymru wedi ei gylchredeg i bawb drwy ebost. Bu'r pwyllgor cyllid argymell bod y Cyngor yn mabwysiadu'r ddogfen, eilio gan Gerry Belanger, bu mabwysiadu'r ddogfen yn unfrydol.

Cynnigwyd bod y pwyllgor cyllid a'r pwyllgor economaidd yn cwrdd a swyddogion adran economaidd CSYM 16/11/2021, bu'r aelodau gytuno yn unfrydol.

Cynnigwyd bod y pwyllgor yn ffurfio is-bwyllgor penodol ar gyfer y prosiect PIWS ac yn gwahodd 3 aelod o'r gymuned fyddai'n defnyddio'r gwasanaethau ac yn elwa o'r prosiect i ymuno a'r is-bwyllgor. Roedd y Cyngor yn gefnogol o'r cynnig.

Myrddin Owens summarised the last meeting of the committee. Members confirmed that they were not accompanied by members of the public prior to giving a summary on staffing issues where the pay and working hours of Alan and Andrew Ganderton had been confirmed.

It was reported that the IACC had offered to sell a piece of land around the scout building to the Town Council. Unanimously agreed to proceed subject to legal costs - Myrddin Owens and clerk to make further inquiries. Proposed Gareth Roberts, seconded Andy Hughes.

It was reported that the committee was trying to re-arrange a meeting with the group who wanted to develop an all-weather pitch near the leisure centre, and it was hoped to report back to the next meeting.

It was noted that the clerk had received an email about a life ring that had disappeared from the Creek. It was confirmed that the Town Council had never been responsible for the beach or safety equipment. Clerk to contact IACC.

An update was given on the complaint made to the Ombudsman noting that they had requested more information from the clerk.

Complaints Resolution Protocol - it was confirmed that the document prepared by One Voice Wales had been circulated to everyone by email. The finance committee recommended that the Council adopt the document, seconded by Gerry Belanger, the document was unanimously adopted.

It was proposed that the finance committee and the economic committee meet with IACC economic department officials 16/11/2021, members unanimously agreed.

It was proposed that the committee form a specific sub-committee for the PIWS project and invite 3 members of the community who would use the services and benefit from the project to join the sub-committee. The Council was supportive of the proposal.

7 Adroddiad Pwyllgor Parciau a Mannayu Agored / Parks and Open Spaces Committee Report

Cafwyd grynodeb cyffredinol gan Gordon Warren. Cafwyd wybod bydd y pwyllgor yn cwrdd nos Lun 1/11/2021. Cadarnhawyd bod yr arolwg diogelwch coed wedi ei gwblhau. Cafwyd wybod bod y prosiect amgylcheddol wedi dechrau ym Mharc Lon Goch – Liz Wood i gadarnhau dyddiadau y sesiynnau. Cadarnhawyd bydd y cylchfan ym mharc Lon Wen yn cael ei drwsio ddechrau mis nesaf. Bydd cynllun rheolaeth ar gyfer parc natur Trehinion yn cael ei drafod a'i ddatblygu dros yr wythnosau nesaf.

Gofynnwyd pwy oed yn gyfrifol am y coed gyferbyn a Maes Llwyn gan eu bod yn tyfu drosodd i'r lon. Nodwyd mai'r contractwyr oedd yn datblygu'r safle fyddai'n gyfrifol. Y clerc i gysylltu a CSYM i dynnu sylw a gwirio nad oedd y coed wedi eu diogelu.

Gordon Warren gave a general summary. It was reported that the committee will be meeting on Monday 1/11/2021. It was confirmed that the tree safety survey had been completed. It was reported that the environmental project had begun at Parc Lon Goch - Liz Wood to confirm the dates of the sessions. It was confirmed that the roundabout at Lon Wen park will be repaired early next month. A management plan for Trehinion nature park will be discussed and developed over the coming weeks.

It was asked who was responsible for the trees opposite Maes Llwyn as they are growing over to the road. It was noted that the contractors developing the site would be responsible. The clerk to contact the IACC to draw attention and check that the trees were not protected.

8 Adroddiad Pwyllgor y Fynwent / Cemetery Committee Report

Cadarnhawyd bod adroddiad yn dilyn y cyfarfod safle wedi ei anfon i'r aelodau er gwybodaeth. Cafwyd grynodeb gan Meg Roberts yn amlinellu nifer o faterion sydd i'w datrys dros yr wythnosau nesaf

It was confirmed that a report following the site meeting had been sent to members for information. Meg Roberts gave a summary outlining a number of matters to be resolved over the coming weeks.

9 Materion Cynllunio / Planning Matters

9.1 Ceisiadau / Applications

Cadarnhawyd sylwadau'r aelodau fel a ganlyn / *The members' observations were noted as follows* –

- HHP/2021/335 105 Bethesda St – dim gwrthwynebiad / no objection
- HHP/2021/365 y Berllan, Gallt Ednyfed – dim gwrthwynebiad / no objection

9.2 Penderfyniadau / Decisions

Cafwyd wybod am benderfyniadau CSYM fel a ganlyn / *IACC decisions were noted as follows:*

- FPL/2021/242 2-3 Ffordd Porth Llechog Bul Bay Rd – caniatad / approved
- HHP/2021/208 Bay View Cottage = caniatad / approved
- FPL/2021/189 29 Parys Uchaf – caniatad / approved
- HHP/2021/269 Llais y Lli – caniatad / approved

10 Gwelliannau Porthladd / Port Improvements and Repairs

Deallwyd bod y contractwyr wedi cwblhau mwy o waith na'r disgwyl. Deallwyd bod ymchwiliad arall wedi ei gwblhau ar gyflwr yr harbwr a bod disgwyl copi o'r adroddiad ac amserlen ar gyfer y gwaith angenrheidiol cyn gyted a phosib.

Nodwyd bod cwestiynnau wedi codi am darn o dir oedd wedi ei darmacio yn ddiweddar. Gofynnwyd i'r clerc gysylltu a CSYM i ofyn am gadarnhad pwy sydd berchen ar y tir (yr

ymddiriedolaeth/gymdeithas ynteu CSYM), pwy oedd wedi rhoi'r hawl am y gwaith ac o ba gyllideb daeth yr arian i dalu am y gwaith.

It was understood that the contractors had completed more work than expected. It was understood that another investigation had been completed on the condition of the harbor and that a copy of the report and timetable for the necessary works were expected as soon as possible.

It was noted that questions had arisen about a piece of land which had recently been tarmaced. The clerk was asked to contact the IACC to seek confirmation of who owned the land (trust/ 'y gymdeithas' or IACC), who had given the right for the work and from what budget the money came to pay for the work.

11 Cyngrhair Twrcelyn Alliamce

Nododd Liz Wood ei bod wedi mynychu cyfarfod cynrychiolwyr Partneriaeth Cynghorau Gogledd Mon, Medrwn Mon a CSYM gan ei bod wedi ei henwi yn drysorydd y Gyngrhair. Cadarnhawyd bod gwybodaeth gan Medrwn Mon am gyfarfod agored i drafod sut i symud ymlaen wedi ei anfon i'r aelodau er gwybodaeth. Cadarnhawyd bod gwybodaeth pellach am gyfansoddiadau posib wedi ei rannu hefyd.

Enwebwyd Liz Wood a Myrddin Owens yn ffurfiol i fynychu'r cyfarfod yn Llanbadrig 2/11 i gynrychioli'r Cyngor Tref. Mae angen cofrestru ar gyfer y cyfarfod oherwydd cyfyngiadau covid, os oes unrhyw un arall a diddordeb mynychu, rhaid cysylltu ar clerc i wneud trefniadau.

Cadarnhaodd Liz Wood bod Medrwn Mon yn archwilio cyfrifon y Gyngrhair er mwyn sicrhau bod unrhyw wariant wedi ei gofnodi yn gywir.

Nodwyd byddai angen edrych ar y cwmni cyfyngedig eto gan nodi pryderon am dwyll.

Liz Wood noted that she had attended a meeting of representatives of the North Anglesey Councils Partnership, Medrwn Mon and IACC as she was named Treasurer of the Alliance. It was confirmed that information from Medrwn Mon about an open meeting to discuss how to proceed had been sent to members for information. It was confirmed that further information on possible compositions had also been shared.

Liz Wood and Myrddin Owens were formally nominated to attend the meeting in Llanbadrig 2/11 to represent the Town Council. Registration is required for the meeting due to covid restrictions, if anyone else is interested in attending, please contact the clerk to make arrangements.

Liz Wood confirmed that Medrwn Mon will audit the Alliance's accounts to ensure that any expenditure is properly recorded.

It was noted that the limited company would need to be looked at again and concerns noted regarding possible fraud.

12 Buddsoddiad Economaidd / Economic Investment

Cadarnhaodd y clerc ei bod wedi anfon gwybodaeth gan CSYM am wariant arian NDA i'r aelodau er gwybodaeth. Bu cytuno bod angen pwyso i ddod a mwy o fuddsoddiad i ogled yr ynys, a bod angen cofio mai Amlwch a'r cyffiniau sydd wedi dod a'r arian i'r ynys i ddechrau – ychydig iawn sydd yn dod yn ol i'r ardal er budd y cymunedau lleol. Nodwyd bod y pwyllgor cyllid a phwyllgor economaidd am gwrdd a swyddogion CSYM 16/11/2021.

Nodwyd siom bod CSYM wedi prynnu tir yn Llangefni er mwyn datblygu unedau busnes, ond nad oeddent wedi prynnu safle Rehau er budd busnesau Amlwch. Nodwyd pryder bod unrhyw fuddsoddiad yn cael ei gadw yn ganolig a bod gogledd yr ynys yn cael ei anghofio.

Nodwyd rhwystredigaeth nad oedd CSYM i weld yn blaenoriaethu gogledd Mon. Bu Myrddin Owens ofyn i'r Cyngor ail-ystyried bod yn aelod o Bartneriaeth Cynghorau Gogledd Mon wrth bwysleisio pwysigrwydd cydweithio er budd yr ardal. Nodwyd bod partneriaeth o gyrff statudol megis cynghorau am gael eu cydnabod fwy na chyrff cymunedol. Cytuno cynnwys y cynnig ar agenda'r cyfarfod nesaf.

The clerk confirmed that she had sent information from the IACC on the expenditure of NDA money to members for information. It was agreed that there was a need to push to bring more investment to the north of the island, and to remember that it was Amlwch and the surrounding area that initially brought the money to the island - very little is coming back to the north for the benefit of local communities. It was noted that the finance committee and economic committee were to meet with IACC officers on 16/11/2021.

Disappointment was noted that the IACC had purchased land in Llangefni to develop business units, but had not purchased the Rehau site for the benefit of Amlwch businesses. Concern was expressed that any investment was being kept centrally and that the north of the island was being forgotten.

Frustration was noted that the IACC did not appear to prioritise north Anglesey. Myrddin Owens asked the Council to reconsider being a member of the North Anglesey Councils Partnership, emphasising the importance of working together for the benefit of the area. It was noted that a partnership of statutory bodies such as councils would be recognised more than community bodies. Agreed to include the motion on the agenda for the next meeting.

13 Sedd Wag / Vacant Seat

Cadarnhaodd y clerc bod y rhybydd cyntaf wedi ei gyhoeddi gan CSYM (dyddiad cau 10/11/2021). Bu gofyn os oedd angen i'r Cyngor gyfethol os na fydd etholiad gan fod yr etholiad cyffredinol ym mis Mai, y clerc i wneud ymholiadau.

The clerk confirmed that the first notice had been issued by IACC (deadline 10/11/2021). It was asked if the Council needed to co-opt if there was no election as the general election was in May, the clerk to make inquiries.

14 Cwestiynau i'r Cynghorwyr Sirol / Questions to the County Councillors

Dim cynghorwyr sirol yn bresennol / N*o county councillors present.*

15 Gohebiaeth / Correspondence

Bu'r clerc gadarnhau bod pob gohebiaeth wedi ei anfon ymlaen i'r aelodau drwy ebost.
The clerk confirmed that all correspondence had been forwarded to members via email.

16 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf / Date of Next Meeting

Cynhelir y cyfarfod nesaf 23/11/2021 am 7 o'r gloch
The next meeting will be held 23/11/2021 at 7pm.

Bu'r cyfarfod orffen am 8.30 / *The meeting closed at 8.30pm.*

Liz Wood
Cadeirydd/Chair
Cyngor Tref Amlwch Town Council